Y BEIBL
CYMRAEG NEWYDD
Argraffiad Diwygiedig

CYNNWYS

	Tudalen
Rhagair i Argraffiad 1988	iii
Rhagair i'r Argraffiad Diwygiedig	v
Mapiau	ix
Rhagarweiniad Cyffredinol	xi

YR HEN DESTAMENT

Rhagarweiniad i'r Hen Destament	xxix
Mesurau a Phwysau yn yr Hen Destament	xxxiii

Enw'r Llyfr	*Talfyriad*	
Llyfr Genesis	Gen.	1
Llyfr Exodus	Ex.	49
Llyfr Lefiticus	Lef.	90
Llyfr Numeri	Num.	119
Llyfr Deuteronomium	Deut.	160
Llyfr Josua	Jos.	197
Llyfr y Barnwyr	Barn.	220
Llyfr Ruth	Ruth	245
Llyfr Cyntaf Samuel	1 Sam.	248
Ail Lyfr Samuel	2 Sam.	280
Llyfr Cyntaf y Brenhinoedd	1 Bren.	308
Ail Lyfr y Brenhinoedd	2 Bren.	338
Llyfr Cyntaf y Cronicl	1 Cron.	367
Ail Lyfr y Cronicl	2 Cron.	394
Llyfr Esra	Esra	428
Llyfr Nehemeia	Neh.	437
Llyfr Esther	Esth.	451
Llyfr Job	Job	459
Llyfr y Salmau	Salm.	490
Llyfr y Diarhebion	Diar.	576
Llyfr y Pregethwr	Preg.	605
Caniad Solomon	Can.	613
Llyfr Eseia	Es.	619
Llyfr Jeremeia	Jer.	683
Llyfr Galarnad	Galar.	745
Llyfr Eseciel	Esec.	752
Llyfr Daniel	Dan.	803
Llyfr Hosea	Hos.	817
Llyfr Joel	Jl.	827
Llyfr Amos	Am.	831
Llyfr Obadeia	Ob.	838
Llyfr Jona	Jon.	840
Llyfr Micha	Mic.	842
Llyfr Nahum	Nah.	848
Llyfr Habacuc	Hab.	850
Llyfr Seffaneia	Seff.	853
Llyfr Haggai	Hag.	856
Llyfr Sechareia	Sech.	858
Llyfr Malachi	Mal.	867

Y DEYRNAS UNEDIG
Sidon
Mynydd Lebanon
Damascus
BETH-REHOB
SYRIA
Mynydd Hermon
Tyrus
Abel-beth-maacha
Dan
ASER
NAFFTALI
Hasor
GESUR
Cabwl
SABULON
LLYN GALILEA
Y MÔR CANOLDIR
ISSACHAR
Endor
Megido
Jesreel
Dyffryn Jesreel
Lo-debar
Mynydd Gilboa
Beth-sean
Ramoth-gilead
Soco
Jabes-gilead
GAD
GILEAD
Sichem
Afon Iorddonen
Mahanaim
EFFRAIM
AMMON
Seilo
Beth-horon
Bethel
Rabba
Gibeon
Mispa
Gilgal
Ciriath-jearim
Gibea
Asdod
Ecron
Jerwsalem
BENJAMIN
Libna
Bethlehem
Ascalon
PHILISTIA
Adulam
Gath
Tecoa
JWDA
Gasa
Hebron
Y MÔR MARW
MOAB
Carmel
Siclag
Beerseba
EDOM
0
20
40
60
Cilomedrau

MESURAU A PHWYSAU YN YR HEN DESTAMENT

Ni cheisiwyd, yn y testun nac yn y troednodiadau, drosi mesurau Hebreig i fesurau cyfwerth yn y dull metrig. Gwaith anodd, onid amhosibl, yw cyfleu'n gwbl bendant union werth y mesurau y cyfeirir atynt yn yr Hen Destament, gan eu bod yn amrywio o le i le ac o bryd i'w gilydd. Sylwer hefyd y defnyddir dau fesur 'cufydd', y naill yn gyffredin a'r llall yn hen fesur (2 Cron.3:3); yr oedd hefyd ddau 'mina' a dau 'sicl', y naill yn ôl 'pwysau'r marchnatwyr' (Gen.23:16) a'r llall yn 'sicl y cysegr' (Ex.30:13). Gan fod sawl dull o bennu cyfwerthedd, ceir bod amrywiaeth mawr yn y rhestrau sydd ar gael. O gofio mai bras amcan yn unig sy'n bosibl, lluniwyd y rhestr hon yn bennaf ar sail yr un a roddir yn *The Oxford Companion to the Bible* (1993). Cynhwysir un cyfeiriad beiblaidd gyda phob un o'r mesurau a phwysau.

1. Mesurau Llinellol

modfedd	lled bys	1 Bren.7:15	0.019 medr
dyrnfedd	cledr llaw (4 bys)	Esec.40:5	0.074 medr
rhychwant	blaen y bawd i flaen y bys bach (3 dyrnfedd)	1 Sam.17:5	0.221 medr
cufydd	o'r penelin i flaen y bysedd (6 dyrnfedd)	Barn.3:16	0.443 medr
cufydd	yr hen fesur (7 dyrnfedd)	2 Cron.3:3	0.520 medr

2. Mesurau Cynhwysedd Sych

pwys (Hebraeg *qab*)		2 Bren.6:15	1.3 litr
omer	degfed ran o effa	Ex.16:32	2.3 litr
hobaid	3 omer a hanner	1 Sam.25:18	7.7 litr
effa	10 omer	Ex.16:36	22.9 litr
corus	10 effa	1 Bren.4:22	229.7 litr
homer	10 effa	Esec.45:11	229.7 litr

3. Mesurau Cynhwysedd Gwlyb

log		Lef.14:10	0.32 litr
hin	12 log	Num.15:7	3.829 litr
bath	6 hin	Esec.45:14	23 litr
corus	10 bath	Esec.45:14	230 litr

4. Pwysau

gera		Esec.45:12	0.57 gram
beca	10 gera (1/2 sicl)	Ex.38:26	5.71 gram
sicl	20 gera	Lef.27:25	11.42 gram
mina	50 sicl	1 Bren.10:17	571.2 gram
mina	60 sicl	Esec.45:12	582.62 gram
talent	60 mina	Ex.38:25	34.3 cgr

5. Arian

Pwysau o fetalau a ddefnyddid yn arian yng nghyfnod yr Hen Destament, ac felly defnyddir 'sicl' (2 Bren.15:20) a 'talent' (1 Bren. 9:14) i ddynodi pwysau o aur neu arian a ddefnyddid i farchnata. Mewn rhannau sy'n perthyn i gyfnod diweddar yn llenyddiaeth yr Hen Destament cyfeirir at ddau ddarn arall o arian:

daric	1 Cron.29:7	8 gram
dracmon	Neh.7:70	4.4 gram

LLYFR

GENESIS

Hanes y Creu

1 Yn y dechreuad creodd Duw y
nefoedd a'r ddaear. 2 Yr oedd y ddaear
yn afluniaidd a gwag, ac yr oedd
tywyllwch ar wyneb y dyfnder, ac ysbryd
Duw* yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd.
3 A dywedodd Duw, "Bydded goleuni." A
bu goleuni. 4 Gwelodd Duw fod y goleuni
yn dda; a gwahanodd Duw y goleuni
oddi wrth y tywyllwch. 5 Galwodd Duw y
goleuni yn ddydd a'r tywyllwch yn nos. A
bu hwyr a bu bore, y dydd cyntaf.

6 Yna dywedodd Duw, "Bydded
ffurfafen yng nghanol y dyfroedd yn
gwahanu dyfroedd oddi wrth ddyfroedd."
7 A gwnaeth Duw y ffurfafen, a
gwahanodd y dyfroedd odani oddi wrth
y dyfroedd uwchlaw iddi. A bu felly.
8 Galwodd Duw y ffurfafen yn nefoedd. A
bu hwyr a bu bore, yr ail ddydd.

9 Yna dywedodd Duw, "Casgler ynghyd
y dyfroedd dan y nefoedd i un lle, ac
ymddangosed tir sych." A bu felly.
10 Galwodd Duw y tir sych yn ddaear, a
chronfa'r dyfroedd yn foroedd. A gwelodd
Duw fod hyn yn dda. 11 Dywedodd Duw,
"Dyged y ddaear dyfiant, llysiau yn dwyn
had, a choed ir ar y ddaear yn dwyn
ffrwyth â had ynddo, yn ôl eu
rhywogaeth." A bu felly. 12 Dygodd y
ddaear dyfiant, llysiau yn dwyn had yn
ôl eu rhywogaeth, a choed yn dwyn
ffrwyth â had ynddo, yn ôl eu
rhywogaeth. A gwelodd Duw fod hyn yn
dda. 13 A bu hwyr a bu bore, y trydydd
dydd.

14 Yna dywedodd Duw, "Bydded
goleuadau yn ffurfafen y nefoedd i
wahanu'r dydd oddi wrth y nos, ac i fod
yn arwyddion i'r tymhorau, a hefyd i'r
dyddiau a'r blynyddoedd. 15 Bydded
iddynt fod yn oleuadau yn ffurfafen y
nefoedd i oleuo ar y ddaear." A bu felly.
16 Gwnaeth Duw y ddau olau mawr, y
golau mwyaf i reoli'r dydd, a'r golau
lleiaf y nos; a gwnaeth y sêr hefyd. 17 A
gosododd Duw hwy yn ffurfafen y
nefoedd i oleuo ar y ddaear, 18 i reoli'r
dydd a'r nos ac i wahanu'r goleuni oddi
wrth y tywyllwch. A gwelodd Duw fod
hyn yn dda. 19 A bu hwyr a bu bore, y
pedwerydd dydd.

20 Yna dywedodd Duw, "Heigied y
dyfroedd o greaduriaid byw, ac
uwchlaw'r ddaear eheded adar ar draws
ffurfafen y nefoedd." 21 A chreodd Duw y
morfilod mawr, a'r holl greaduriaid byw
sy'n heigio yn y dyfroedd yn ôl eu
rhywogaeth, a phob aderyn asgellog yn
ôl ei rywogaeth. A gwelodd Duw fod
hyn yn dda. 22 Bendithiodd Duw hwy
a dweud, "Byddwch ffrwythlon ac
amlhewch a llanwch ddyfroedd y
moroedd, a lluosoged yr adar ar y
ddaear." 23 A bu hwyr a bu bore, y pumed
dydd.

24 Yna dywedodd Duw, "Dyged y ddaear
greaduriaid byw yn ôl eu rhywogaeth:
anifeiliaid, ymlusgiaid a bwystfilod
gwyllt yn ôl eu rhywogaeth." A bu felly.
25 Gwnaeth Duw y bwystfilod gwyllt yn
ôl eu rhywogaeth, a'r anifeiliaid yn ôl eu
rhywogaeth, a holl ymlusgiaid y tir yn ôl
eu rhywogaeth. A gwelodd Duw fod hyn
yn dda.

26 Dywedodd Duw, "Gwnawn ddyn ar
ein delw, yn ôl ein llun ni, i lywodraethu
ar bysgod y môr, ar adar yr awyr, ar yr
anifeiliaid gwyllt, ar yr holl ddaear, ac ar
bopeth sy'n ymlusgo ar y ddaear."
27 Felly creodd Duw ddyn ar ei ddelw ei
hun; ar ddelw Duw y creodd ef; yn
wryw ac yn fenyw y creodd hwy.
28 Bendithiodd Duw hwy a dweud,
"Byddwch ffrwythlon ac amlhewch,
llanwch y ddaear a darostyngwch hi;
llywodraethwch ar bysgod y môr, ar adar
yr awyr, ac ar bopeth byw sy'n ymlusgo
ar y ddaear."

29 A dywedodd Duw, "Yr wyf yn rhoi i
chwi bob llysieuyn sy'n dwyn had ar
wyneb y ddaear, a phob coeden â had
yn ei ffrwyth; byddant yn fwyd i chwi.
30 Ac i bob bwystfil gwyllt, i holl adar yr

1:2 Neu, *a gwynt nerthol.*

awyr, ac i bopeth sy'n ymlusgo ar y
ddaear, popeth ag anadl einioes ynddo,
bydd pob llysieuyn glas yn fwyd." A bu
felly. 31 Gwelodd Duw y cwbl a wnaeth,
ac yr oedd yn dda iawn. A bu hwyr a bu
bore, y chweched dydd.

2 Felly gorffennwyd y nefoedd a'r
ddaear a'u holl luoedd. 2 Ac erbyn y
seithfed dydd yr oedd Duw wedi gorffen
y gwaith a wnaeth, a gorffwysodd ar y
seithfed dydd oddi wrth ei holl waith.
3 Am hynny bendithiodd Duw y seithfed
dydd a'i sancteiddio, am mai ar hwnnw
y gorffwysodd Duw oddi wrth ei holl
waith yn creu.

4 Dyma hanes cenhedlu'r nefoedd a'r
ddaear pan grewyd hwy.

Gardd Eden

Yn y dydd y gwnaeth yr ARGLWYDD Dduw
ddaear a nefoedd, 5 nid oedd un o
blanhigion y maes wedi dod ar y tir, nac
un o lysiau'r maes wedi blaguro, am nad
oedd yr ARGLWYDD Dduw eto wedi peri
iddi lawio ar y ddaear, ac nad oedd yno
ddyn i drin y tir; 6 ond yr oedd tarth yn
esgyn o'r ddaear ac yn dyfrhau holl
wyneb y tir. 7 Yna lluniodd yr ARGLWYDD
Dduw ddyn o lwch y tir, ac anadlodd yn
ei ffroenau anadl einioes; a daeth y dyn
yn greadur byw. 8 A phlannodd yr
ARGLWYDD Dduw ardd yn Eden, tua'r
dwyrain; a gosododd yno y dyn yr oedd
wedi ei lunio. 9 A gwnaeth yr ARGLWYDD
Dduw i bob coeden ddymunol i'r golwg,
a da i fwyta ohoni, dyfu o'r tir; ac yr oedd
pren y bywyd yng nghanol yr ardd, a
phren gwybodaeth da a drwg.

10 Yr oedd afon yn llifo allan o Eden i
ddyfrhau'r ardd, ac oddi yno yr oedd yn
ymrannu'n bedair. 11 Enw'r afon gyntaf
yw Pison; hon sy'n amgylchu holl wlad
Hafila, lle y ceir aur; 12 y mae aur y wlad
honno'n dda, ac yno ceir bdeliwm a'r
maen onyx. 13 Enw'r ail yw Gihon; hon
sy'n amgylchu holl wlad Ethiopia. 14 Ac
enw'r drydedd yw Tigris; hon sy'n llifo
o'r tu dwyrain i Asyria. A'r bedwaredd
afon yw Ewffrates.

15 Cymerodd yr ARGLWYDD Dduw y
dyn a'i osod yng ngardd Eden, i'w thrin
a'i chadw. 16 Rhoddodd yr ARGLWYDD
Dduw orchymyn i'r dyn, a dweud, "Cei
fwyta'n rhydd o bob coeden yn yr ardd,
17 ond ni chei fwyta o bren gwybodaeth
da a drwg, oherwydd y dydd y bwytei
ohono ef, byddi'n sicr o farw."

18 Dywedodd yr ARGLWYDD Dduw
hefyd, "Nid da bod y dyn ar ei ben ei hun;
gwnaf iddo ymgeledd cymwys." 19 Felly
fe luniodd yr ARGLWYDD Dduw o'r
ddaear yr holl fwystfilod gwyllt a holl
adar yr awyr, a daeth â hwy at y dyn i
weld pa enw a roddai arnynt; a pha enw
bynnag a roes y dyn ar unrhyw greadur,
dyna fu ei enw. 20 Rhoes y dyn enw ar yr
holl anifeiliaid, ar adar yr awyr, ac ar yr
holl fwystfilod gwyllt; ond ni chafodd
ymgeledd cymwys iddo'i hun. 21 Yna
parodd yr ARGLWYDD Dduw i drymgwsg
syrthio ar y dyn, a thra oedd yn cysgu,
cymerodd un o'i asennau a chau ei lle â
chnawd; 22 ac o'r asen a gymerodd
gwnaeth yr ARGLWYDD Dduw wraig, a
daeth â hi at y dyn. 23 A dywedodd y dyn,

"Dyma hi!
Asgwrn o'm hesgyrn, a chnawd o'm
cnawd.
Gelwir hi yn wraig,
am mai o ŵr* y cymerwyd hi."

24 Dyna pam y bydd dyn yn gadael ei dad
a'i fam, ac yn glynu wrth ei wraig, a
byddant yn un cnawd. 25 Yr oedd y dyn
a'i wraig ill dau yn noeth, ac nid oedd
arnynt gywilydd.

Anufudd-dod Dyn

3 Yr oedd y sarff yn fwy cyfrwys na'r
holl fwystfilod gwyllt a wnaed gan yr
ARGLWYDD Dduw. A dywedodd wrth y
wraig, "A yw Duw yn wir wedi dweud, 'Ni
chewch fwyta o'r un o goed yr ardd'?"
2 Dywedodd y wraig wrth y sarff, "Cawn
fwyta o ffrwyth coed yr ardd, 3 ond am
ffrwyth y goeden sydd yng nghanol yr
ardd dywedodd Duw, 'Peidiwch â bwyta
ohono, na chyffwrdd ag ef, rhag ichwi
farw.' " 4 Ond dywedodd y sarff wrth y
wraig, "Na! ni fyddwch farw; 5 ond fe ŵyr
Duw yr agorir eich llygaid y dydd y
bwytewch ohono, a byddwch fel Duw*

2:23 Hebraeg yn chwarae ar y geiriau *'issa* (gwraig) ac *'is* (gŵr).
3:5 Neu, *duwiau*.

yn gwybod da a drwg." 6 A phan ddeallodd y wraig fod y pren yn dda i fwyta ohono, a'i fod yn deg i'r golwg ac yn bren i'w ddymuno i beri doethineb, cymerodd o'i ffrwyth a'i fwyta, a'i roi hefyd i'w gŵr oedd gyda hi, a bwytaodd yntau. 7 Yna agorwyd eu llygaid hwy ill dau i wybod eu bod yn noeth, a gwnïasant ddail ffigysbren i wneud ffedogau iddynt eu hunain.

8 A chlywsant sŵn yr ARGLWYDD Dduw yn rhodio yn yr ardd gyda hwyr y dydd, ac ymguddiodd y dyn a'i wraig o olwg yr ARGLWYDD Dduw ymysg coed yr ardd. 9 Ond galwodd yr ARGLWYDD Dduw ar y dyn, a dweud wrtho, "Ble'r wyt ti?" 10 Atebodd yntau, "Clywais dy sŵn yn yr ardd, ac ofnais oherwydd fy mod yn noeth, ac ymguddiais." 11 Dywedodd yntau, "Pwy a ddywedodd wrthyt dy fod yn noeth? A wyt ti wedi bwyta o'r pren y gorchmynnais iti beidio â bwyta ohono?" 12 A dywedodd y dyn, "Y wraig a roddaist i fod gyda mi a roes i mi o ffrwyth y pren, a bwyteais innau." 13 Yna dywedodd yr ARGLWYDD Dduw wrth y wraig, "Pam y gwnaethost hyn?" A dywedodd y wraig, "Y sarff a'm twyllodd, a bwyteais innau."

Dedfryd Duw

14 Yna dywedodd yr ARGLWYDD Dduw wrth y sarff:

"Am iti wneud hyn, yr wyt yn fwy melltigedig
na'r holl anifeiliaid,
ac na'r holl fwystfilod gwyllt;
byddi'n ymlusgo ar dy dor,
ac yn bwyta llwch holl ddyddiau dy fywyd.
15 Gosodaf elyniaeth hefyd rhyngot ti a'r wraig,
a rhwng dy had di a'i had hithau;
bydd ef yn ysigo dy ben di,
a thithau'n ysigo'i sawdl ef."

16 Dywedodd wrth y wraig:

"Byddaf yn amlhau yn ddirfawr dy boen a'th wewyr;
mewn poen y byddi'n geni plant.
Eto bydd dy ddyhead am dy ŵr,
a bydd ef yn llywodraethu arnat."

17 Dywedodd wrth Adda:

"Am iti wrando ar lais dy wraig,
a bwyta o'r pren y gorchmynnais i ti beidio â bwyta ohono,
melltigedig yw'r ddaear o'th achos;
trwy lafur y bwytei ohoni holl ddyddiau dy fywyd.
18 Bydd yn rhoi iti ddrain ac ysgall, a byddi'n bwyta llysiau gwyllt.
19 Trwy chwys dy wyneb y byddi'n bwyta bara
hyd oni ddychweli i'r pridd,
oherwydd ohono y'th gymerwyd;
llwch wyt ti, ac i'r llwch y dychweli."

20 Rhoddodd y dyn i'w wraig yr enw Efa, am mai hi oedd mam pob un byw. 21 A gwnaeth yr ARGLWYDD Dduw beisiau crwyn i Adda a'i wraig, a'u gwisgo amdanynt.

22 Yna dywedodd yr ARGLWYDD Dduw, "Edrychwch, y mae'r dyn fel un ohonom ni, yn gwybod da a drwg. Yn awr, rhaid iddo beidio ag estyn ei law a chymryd hefyd o bren y bywyd, a bwyta, a byw hyd byth." 23 Am hynny anfonodd yr ARGLWYDD Dduw ef allan o ardd Eden, i drin y tir y cymerwyd ef ohono. 24 Gyrrodd y dyn allan; a gosododd gerwbiaid i'r dwyrain o ardd Eden, a chleddyf fflamllyd yn chwyrlïo, i warchod y ffordd at bren y bywyd.

Cain ac Abel

4 Cafodd Adda gyfathrach â'i wraig Efa, a beichiogodd ac esgor ar Cain, a dywedodd, "Dygais* ŵr trwy yr ARGLWYDD." 2 Esgorodd wedyn ar ei frawd Abel. Bugail defaid oedd Abel, a Cain yn trin y tir. 3 Ymhen amser daeth Cain ag offrwm o gynnyrch y tir i'r ARGLWYDD, 4 a daeth Abel yntau â blaenffrwyth ei ddefaid, sef eu braster. 5 Edrychodd yr ARGLWYDD yn ffafriol ar Abel a'i offrwm, ond nid felly ar Cain a'i offrwm. Digiodd Cain yn ddirfawr, a bu'n wynepdrist. 6 Ac meddai'r ARGLWYDD wrth Cain, "Pam yr wyt wedi digio? Pam yr wyt yn wynepdrist? 7 Os gwnei yn dda, oni fyddi'n gymeradwy? Ac oni wnei yn dda, y mae pechod yn llercian

4:1 Hebraeg, *canah*. Cymh. *Cain*.

wrth y drws; y mae ei wanc amdanat,
ond rhaid i ti ei drechu." 8 A dywedodd
Cain wrth Abel ei frawd, "Gad inni fynd
i'r maes."* A phan oeddent yn y maes,
troes Cain ar Abel ei frawd, a'i ladd.
9 Yna dywedodd yr ARGLWYDD wrth
Cain, "Ble mae dy frawd Abel?" Meddai
yntau, "Ni wn i. Ai fi yw ceidwad fy
mrawd?" 10 A dywedodd Duw, "Beth wyt
wedi ei wneud? Y mae llef gwaed dy
frawd yn gweiddi arnaf o'r pridd. 11 Yn
awr, melltigedig fyddi gan y pridd a
agorodd ei safn i dderbyn gwaed dy
frawd o'th law. 12 Pan fyddi'n trin y
pridd, ni fydd mwyach yn rhoi ei ffrwyth
iti; ffoadur a chrwydryn fyddi ar y
ddaear." 13 Yna meddai Cain wrth yr
ARGLWYDD, "Y mae fy nghosb yn ormod
i'w dwyn. 14 Dyma ti heddiw yn fy ngyrru
ymaith o'r tir, ac fe'm cuddir o'th ŵydd;
ffoadur a chrwydryn fyddaf ar y ddaear,
a bydd pwy bynnag a ddaw ar fy nhraws
yn fy lladd." 15 Dywedodd yr ARGLWYDD
wrtho,"Nid felly*; os bydd i rywun ladd
Cain, dielir arno seithwaith." A gosododd
yr ARGLWYDD nod ar Cain, rhag i neb a
ddôi ar ei draws ei ladd. 16 Yna aeth
Cain ymaith o ŵydd yr ARGLWYDD, a
phreswylio yn nhir Nod, i'r dwyrain o
Eden.

Disgynyddion Cain

17 Cafodd Cain gyfathrach â'i wraig, a
beichiogodd ac esgor ar Enoch; ac
adeiladodd ddinas, a'i galw ar ôl ei fab,
Enoch. 18 Ac i Enoch ganwyd Irad; Irad
oedd tad Mehwiael, Mehwiael oedd tad
Methwsael, a Methwsael oedd tad
Lamech. 19 Cymerodd Lamech ddwy
wraig; Ada oedd enw'r gyntaf, a Sila
oedd enw'r ail. 20 Esgorodd Ada ar Jabal;
ef oedd tad pob preswylydd pabell a
pherchen anifail. 21 Enw ei frawd oedd
Jwbal; ef oedd tad pob canwr telyn a
phib. 22 Esgorodd Sila, y wraig arall, ar
Twbal-Cain, cyfarwyddwr pob un sy'n
gwneud cywreinwaith pres a haearn.
Naama oedd chwaer Twbal-Cain.

23 A dywedodd Lamech wrth ei
wragedd:

"Ada a Sila, clywch fy llais;
chwi wragedd Lamech, gwrandewch
fy lleferydd;
lleddais ŵr am fy archolli, a llanc
am fy nghleisio.
24 Os dielir am Cain seithwaith,
yna Lamech saith ddengwaith a
seithwaith."

Seth ac Enos

25 Cafodd Adda gyfathrach â'i wraig eto,
ac esgorodd ar fab, a'i alw'n Seth, a
dweud, "Darparodd* Duw i mi fab arall
yn lle Abel, am i Cain ei ladd." 26 I Seth
hefyd fe anwyd mab, a galwodd ef yn
Enos. Yr amser hwnnw y dechreuwyd
galw ar enw yr ARGLWYDD.

Disgynyddion Adda

5 1 Cron. 1:1-4
Dyma lyfr cenedlaethau Adda*. Pan
greodd Duw bobl, gwnaeth hwy ar lun
Duw. 2 Fe'u creodd yn wryw ac yn fenyw,
a bendithiodd hwy; ac ar ddydd eu creu
fe'u galwodd yn ddyn. 3 Bu Adda fyw am
gant tri deg o flynyddoedd cyn geni mab
iddo, ar ei lun a'i ddelw; a galwodd ef yn
Seth. 4 Wedi geni Seth, bu Adda fyw am
wyth gan mlynedd, a bu iddo feibion a
merched eraill. 5 Felly yr oedd oes gyfan
Adda yn naw cant tri deg o flynyddoedd;
yna bu farw.

6 Bu Seth fyw am gant a phump o
flynyddoedd cyn geni iddo Enos. 7 Ac
wedi geni Enos, bu Seth fyw am wyth
gant a saith o flynyddoedd, a bu iddo
feibion a merched eraill. 8 Felly yr oedd
oes gyfan Seth yn naw cant a deuddeg o
flynyddoedd; yna bu farw.

9 Bu Enos fyw am naw deg o
flynyddoedd cyn geni iddo Cenan. 10 Ac
wedi geni Cenan, bu Enos fyw am wyth
gant a phymtheg o flynyddoedd, a bu
iddo feibion a merched eraill. 11 Felly yr
oedd oes gyfan Enos yn naw cant a
phump o flynyddoedd; yna bu farw.

12 Bu Cenan fyw am saith deg o
flynyddoedd cyn geni iddo Mahalalel.
13 Ac wedi geni Mahalalel, bu Cenan
fyw am wyth gant pedwar deg o
flynyddoedd, a bu iddo feibion a
merched eraill. 14 Felly yr oedd oes

4:8 Felly Fersiynau. Hebraeg heb *"Gad . . . maes."*
4:15 Felly Fersiynau. Hebraeg, *Felly.*
4:25 Hebraeg, *sith.* Cymh. *Seth.*
5:1 Neu, *dyn.*